

## Beth yw'r gwirionedd?

(dod i benderfyniad / sefyll yn gadarn)

Ganed Galileo Galilei yn nhref fechan Pisa yn yr Eidal ym 1564. Pan oedd yn ifanc iawn byddai'n cwestiynu popeth, ac un diwrnod profodd fod y gwyddonwyr yn anghywir. "Yn wir," meddai, "gallaf brofi eich bod i gyd yn anghywir."

Gwyddai pawb fod gwrthrychau trymion yn syrthio i'r ddaear yn gyflymach na phethau ysgafn. Ond, ym marn Galileo, roedd hyn yn anghywir. Doedd neb yn ei gredu. Rhoddodd wahoddiad i bobl ddod i weld ei arbrawf. Cyrhaeddodd cannoedd o bobl o gwmpas y tŵr oedd yn gogwyddo yn Pisa. Dringodd Galileo i ben y tŵr gyda dwy o beli trymion.

Roedd un bêl yn pwyso hanner cilo a'r llall yn pwyso pum cilo. Dyna lle roedd y dorf yn y gwaelod yn gwylio pob symudiad. Gollyngodd Galileo y ddwy bêl ar yr un pryd o ben y tŵr. Er mawr syndod i'r dorf disgynnodd y peli a tharo'r ddaear ar yr un pryd. Roedd Galileo wedi profi fod disgyrchiant yn union yr un peth i wrthrychau trwm a gwrthrychau ysgafn.

Ond doedd y gwyddonwyr ddim yn hapus o gwbl. "Tric ydi hwn," meddai un ohonyn nhw. "Mae Galileo wedi'n twyllo ni i gyd," oedd barn un arall. Ond yn fuan iawn gwelwyd fod pawb yn gallu gwneud yr un arbrawf a bu'n rhaid i'r gwyddonwyr eraill gyfaddef yn y diwedd fod Galileo'n berffaith gywir.

Un arall o ddiddordebau Galileo oedd astudio'r sêr a'r planedau. Adeiladodd delesgob iddo'i hun a noson ar ôl noson byddai'n astudio awyr y nos. Dangosodd fod yna fynyddoedd a dyffrynnoedd ar y lleuad.

Ef oedd y cyntaf un i sylwi fod gan blaned lau nifer o leuadau. Bu hefyd yn astudio'r haul. Roedd yr haul yn gryn ddirgelwch iddo. Pan oedd yn fyfyrwr roedd wedi dysgu bod yr haul yn mynd o gwmpas y ddaear. Wrth iddo astudio'r planedau daeth yn fwyfwy sicr fod y planedau i gyd yn symud o gwmpas yr haul. "Dydi'r haul ddim yn symud. Y ni a'r planedau sy'n symud o gwmpas yr haul," meddai. Roedd y gwyddonwyr ac arweinwyr yr eglwysi yn ddig iawn wrtho. "Y ddaear ydi canolbwynt y cread i gyd," meddai arweinwyr yr eglwysi. "Mae Galileo yn anghywir. Mae'n rhaid iddo gael ei ddisgyblu am ein camarwain fel hyn." Bu'n rhaid iddo ymddangos o flaen ei well. Cododd Galileo ar ei draed

gerbron y llys ac meddai, “Rydych chi i gyd yn anghywir. Y fi sydd yn iawn. Mae’r ddaear yn symud o gwmpas yr haul. Dydi’r haul ddim yn symud. Ac fe alla i brofi hyn i chi.”

Cythruddwyd aelodau’r llys a’r gwyddonwyr eraill oedd yno. Doedden nhw ddim yn barod i wrando ar ei eiriau. “Mae’n rhaid i ni dy ddisgyblu’n llym iawn. Byddwn yn dy gam-drin ac yna’n dy ladd os na fyddi di’n ymddiheuro i’r llys. Bydd raid i ti gyhoeddi dy fod yn anghywir neu fe fyddwn yn dy ladd.” Dyma oedd barn y llys. Gwyddai Galileo ei fod yn hollol gywir. Ond beth oedd ef i’w wneud? Cadw at y gwirionedd neu gael ei ladd neu gyfaddef ei fod yn anghywir? Penderfynodd gyfaddef.

“Mae’n ddrwg gen i,” meddai, “rwyf wedi eich camarwain. Y fi sydd yn anghywir a chithau i gyd sydd yn gywir.” Ond ateb y llys oedd, “Fedrwn ni ddim mo dy drystio di, Galileo. Felly, o hyn ymlaen, bydd raid i ti aros yn dy dŷ am weddill dy fywyd. Ac felly y bu. Bu farw’n ddyn tlawd, unig, anhapus iawn, ond gwyddai y byddai gwyddonwyr, rhyw ddydd, yn darganfod fod ei ymdrechion i chwilio am y gwirionedd yn berffaith gywir.



Adnod: “Rhoesant hwythau waedd uchel, a chau eu clustiau, a rhuthro’n unfryd arno, a’i fwrw allan o’r ddinas, a mynd ati i’w labyddio.” Actau 7:57



Gweddi: O Dduw, mae yna amseroedd yn dod pan mae’n rhaid i ni ddweud y gwir, doed a ddelo. Ar gyfnodau felly a wnei di fy helpu? Amen.



Trafod:

- Oes gennych chi hawl i gwestiynu yr hyn mae gwyddonwyr yn ei ddweud wrthym?
- Beth fuasech chi’n ei wneud petaech yn esgidiau Galileo?